WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Dyddiad cyhoeddi: 10 Medi 2018

Cyngor Cymuned Mawr

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth, dyddiedig 22 Awst 2018, pan ofynnoch am wybodaeth mewn perthynas â Chyngor Cymuned Mawr.

Er hwylustod, rwyf wedi cynnwys eich cwestiynau isod ac wedi amlinellu ein hymatebion cyfatebol.

1. Mewn perthynas â phosteri sy'n ymgyrchu i gadw ysgol yng Nghraig-cefn-parc ar agor,

a) Allwch chi roi gwybod o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth faint mae'r posteri hyn a'r llafur yn costio, a ph'un ai y talwyd amdanynt gan y Cyngor Cymuned o arian treth ai peidio?

b) A roddwyd caniatâd i arddangos y posteri hyn…?

Nid ydym yn cadw gwybodaeth sy'n cyd-fynd â'r disgrifiad hwn. Efallai y byddwch am gysylltu â Chyngor Cymuned Mawr yn uniongyrchol ynglŷn â hyn ac mae gwybodaeth ynglŷn â sut i gysylltu â'r cyngor ar ei wefan yn:
http://www.mawrcommunitycouncil.org.uk/

2. Gall y Swyddfa Archwilio anfon cyfrifon diweddaraf Cyngor Cymuned Mawr ac Ymddiriedolaeth Ddatblygu Mawr ataf…?

Mae datganiad blynyddol Cyngor Cymuned Mawr ar gyfer 2017 ar gael ar ei wefan yn:
http://www.mawrcommunitycouncil.org.uk/Accounts_9666.aspx

Rydym yn dal copi o ddatganiad blynyddol Cyngor Cymuned Mawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2018. Fodd bynnag, o dan adran 22 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, nid oes rhaid inni ddarparu gwybodaeth sydd i'w chyhoeddi yn y dyfodol. Disgwylir i'r wybodaeth hon gael ei chyhoeddi gan Gyngor Cymuned Mawr. Er y bydd datgelu'r wybodaeth hon er budd cyhoeddus, bodlonir hyn pan gyhoeddir y datganiad blynyddol gan Gyngor Cymuned Mawr ac mae er budd cyhoeddus fod y broses archwilio statudol yn cael ei chwblhau cyn ei gyhoeddi. Rwyf felly wedi penderfynu, ar ôl pwyso a mesur, y dylai'r esemptiad gael ei gynnal er mwyn cael y budd cyhoeddus mwyaf. Am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r dyddiad cyhoeddi, cysylltwch â Chyngor Cymuned Mawr.

Nid ydym yn cadw copïau o gyfrifon Ymddiriedolaeth Ddatblygu Mawr gan nad yw archwilio cyfrifon o'r fath yn dod o fewn pwerau statudol Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Os hoffech gwyno am y ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais, ysgrifennwch at Martin Peters, Rheolwr yr Adran Gyfraith a Moeseg, drwy anfon neges e-bost at martin.peters@archwilio.cymru neu lythyr at 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

Rhaid i mi eich cyfeirio hefyd at adran 50 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, sy'n caniatáu i chi wneud cais i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad ar a ymdriniwyd â'ch cais mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf ai peidio. Mae manylion cyswllt y Comisiynydd Gwybodaeth fel a ganlyn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF

E-bost: casework@ico.gsi.gov.uk

Ffôn: 01625 545745
Ffacs: 01625 524510

Dylech nodi, fodd bynnag, y bydd y Comisiynydd Gwybodaeth fel arfer yn disgwyl eich bod wedi dilyn pob un o'n gweithdrefnau cwyno mewnol i'r eithaf cyn ymdrin â chais o'r fath. Mae rhagor o arweiniad ar gael ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth: https://ico.org.uk/

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae pob croeso i chi gysylltu â fi.

Yn gywir

Swyddog Gwybodaeth